# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Uta Clay | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliodd holl gynghorwyr Llansamlet gymorthfeydd rheolaidd, ar ddydd Gwener 1af a 3ydd y mis, 5-6pm yng Nghanolfan Gymunedol Gellifedw, Lôn Gwesyn, ac ar 2il a 4ydd dydd Sadwrn y mis, 10.30-11.30am yng Nghlwb Ieuenctid Stadwen, Heol Bethel.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 9 | 67 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 2 | / | 6 | 33 | % |
| Y cyngor | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 0 | / | 5 | 0 | % |
| CYFFREDINOL | 24 | / | 46 | 52 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Cefais ddamwain ac roeddwn yn dost am ran sylweddol o'r cyfnod hwn.

Yn ychwanegol at gyfarfodydd pwyllgorau'r cyngor rwy'n mynd iddynt, roeddwn hefyd yn aelod o gyrff llywodraethu ysgolion cynradd y Glais a'r Trallwn ac euthum i gyfarfodydd pryd bynnag roeddwn yn gallu.

Hefyd, euthum i gyfarfodydd PACT ar gyfer ardal Gellifedw a'r Trallwn.

Euthum i gyfarfodydd Cymdeithas Gymunedol Gellifedw'n rheolaidd; roedd hyn yn gyfle da iawn i bobl gwyno am gyfleusterau cymunedol a materion personol. Arweiniodd hyn at nifer o fentrau a fydd o les i'r gymuned.

Mae Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf Dwyrain Abertawe, sy'n cyfarfod ym Monymaen, yn un o'm blaenoriaethau uchaf.

Rwyf nawr yn aelod pwyllgor o Ganolfan Gymunedol Gellifedw ac yn mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd.

Mae rhai ‘dyletswyddau'n’ dod â phleser sylweddol, fel mynd i'r Diwrnod Hwyl i'r Teulu ym Mharc Briallu (a drefnwyd gan fy nghydweithiwr, y Cyng. Penny Matthews) a pharti'r pentref yn y Glais yr haf diwethaf.

Rwy'n mynnu cael ymweld â'r Clwb Cinio Pensiynwyr yng Nghanolfan Gymunedol Llansamlet a'r sesiwn galw heibio yn y prynhawn yn y ganolfan i'r henoed oddi ar Heol Gellifedw.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi cael rhywfaint o lwyddiant mewn ymgyrchoedd cymunedol:

Roeddwn yn gyfrwng i helpu i sefydlu Cyfeillion Parc Heol Las a Phwll Scott.

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau i gynnal a chadw'r cyfleusterau yng Ngwarchodfa Natur Llansamlet.

Ar ôl llawer o flynyddoedd o ymgyrchu gan gynghorwyr y gymuned a'r ward, rwyf, o'r diwedd, wedi llwyddo i drefnu ailosod y lloches bws ar Heol Gellifedw.

Rwyf wedi bod yn arwain yr ymgyrch i glirio'r sbwriel rhwng Tai Gwalia a Heol Parc yr Helyg.

Rwyf wedi cymryd rhan yn y penderfyniadau rhwng cynghorwyr y ward a swyddogion y cyngor am y pryderon cynyddol am sefyllfa'r traffig sy'n gwaethygu ar Heol Las.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Cyn i mi ymddeol, roeddwn yn weithiwr cymdeithasol anableddau dysgu oedolion ac, o ganlyniad, mae gennyf ddiddordeb mawr yn y drafodaeth barhaol am ddyfodol Gwasanaethau i Oedolion yn Abertawe.

**Adran 6:Gweithgareddau a materion eraill**

Nid yw mater y safleoedd teithwyr wedi'i ddatrys ac mae'n mynd â llawer o'm hamser.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 05.05.14 |